# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 175(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Sam Rowlands – Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

(60 munud)

**Dogfennau ategol**

Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)

Memorandwm Esboniadol

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd

(60 munud)

**NDM8417** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2023.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Gweithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23

(30 munud)

**NDM8418** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23, a osodwyd ar 21 Medi 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2023. Ymatebodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig) ar 30 Hydref 2023.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Busnesau bach

(60 munud)

**NDM8420** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr 2023.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae busnesau bach yn ei wneud o ran creu swyddi, cefnogi cymunedau a datblygu'r economi leol.

3. Yn croesawu'r toriadau gan Ganghellor y Trysorlys i gyfraniadau yswiriant gwladol, a fydd o fudd i bobl hunangyflogedig o fis Ebrill 2024 ymlaen.

4. Yn annog cymunedau i siopa'n lleol i gefnogi busnesau bach i dyfu a ffynnu.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio pob ysgogiad sydd ganddi i gefnogi busnesau bach yng Nghymru yn well; a

b) parhau i gefnogi busnesau bach drwy newidiadau i bolisïau caffael ar draws y sector cyhoeddus.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y ffaith bod y Cangellorion dros y blynyddoedd diwethaf wedi camreoli'r economi gan achosi niwed y byddai wedi bod yn bosibl ei osgoi i fusnesau bach sydd bellach yn wynebu costau ynni a chostau morgais uwch o'u cymharu â busnesau o'r un maint mewn economïau tebyg.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu na fydd y toriad arfaethedig i Yswiriant Gwladol yn gwneud fawr ddim i leddfu effaith llusgiad cyllidol ar weithwyr Cymru yn y sector busnesau bach.

Yn gresynu ymhellach fod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi israddio ei rhagolygon twf am y ddwy flynedd nesaf, a fydd yn atal ffyniant ein sector busnesau bach a chanolig.

**Gwelliant 3** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu:

a) y cymorth y mae busnesau bach ac entrepreneuriaid wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru drwy wasanaethau a mentrau fel Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes; a

b) dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r economi bob dydd a'r cynnydd a wnaed er mwyn helpu mwy o fusnesau bach i ennill mwy o gontractau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8421** James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Pwysigrwydd rygbi llawr gwlad mewn cymunedau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023